ATODLEN 3

Safonau gweithredu

# RHAN 1

## Y SAFONAU

| | |
|---|---|
| **1** | **Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu** |
| **Safon 51:** | Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion. |
| **Safon 52**: | Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu—<br>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru);<br>(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;<br>(c) dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. |
| **Safon 53**: | Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, drwy broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth at ddiben codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. |
| **Safon 54:** | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i'ch cyflogeion i gael gwersi Cymraeg sylfaenol. |
| **Safon 55:** | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion, sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol i gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. |
| **Safon 56:** | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gyflogeion i gael hyfforddiant, yn rhad ac am ddim, i wella eu sgiliau Cymraeg. |
| **2** | **Safonau ynghylch corff yn recriwtio ac yn penodi** |
| **Safon 57**: | Pan fyddwch yn asesu'r gofynion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—<br>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;<br>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. |
| **Safon 57A:** | Pan fyddwch yn hysbysebu swydd yr ydych wedi ei chategoreiddio fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi—<br>(a) pennu hynny yn yr hysbysiad, a<br>(b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg. |
| **Safon 58:** | Pan fyddwch yn hysbysebu swydd—<br>(a) sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru,<br>(b) y mae ei dyletswyddau yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru, neu<br>(c) yr ydych wedi ei chategoreiddio fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, |

rhaid ichi ddatgan y caniateir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac na fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Safon 58A:** Os byddwch yn cyhoeddi ffurflen gais am swydd—

(a) sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru,
(b) y mae ei dyletswyddau yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru, neu
(c) yr ydych wedi ei chategoreiddio fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol,

rhaid ichi ei chyhoeddi yn Gymraeg a sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

**Safon 58B:** Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau ac mewn perthynas ag unrhyw amserlen ar gyfer hysbysu ymgeiswyr am benderfyniadau).

**Safon 59:** Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflen gais am swydd—

(a) sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru,
(b) y mae ei dyletswyddau yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru, neu
(c) yr ydych wedi ei chategoreiddio fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol,

yn rhoi lle i'r ymgeisydd nodi ei fod yn dymuno i gyfweliad neu ddull arall o asesiad gael ei gynnal yn Gymraeg ac os yw ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg, neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.